

**Darlith Goffa Hedley Gibbard,
Eisteddfod Genedlaethol Meirion a'r Cyffiniau 2009**

**HWIANGERDDI CYMRU
Darlith y Parch. Huw Jones, Rhuddlan**

Mae inni gyfoeth o hwiangerddi, er mai ychydig iawn ohonyn nhw sy'n gerddi hwian yn ystyr fanwl y gair, sef, cerddi suo i gysgu, neu gerddi i hudo Huwcyn Cwsg. Yn eu plith mae rhai fel:

Si hei lwli mabi
Mae'r llong yn mynd i ffwrdd.

Cysga di fy mhlentyn tlws
Cei gysgu tan y bore.

Myfi sy'n magu'r baban
Myfi sy'n siglo'r crud.

Priodolir yr olaf uchod i achlysur geni tywysog cyntaf Cymru, sef mab Edward I, ond ansicr yw'r dystiolaeth.

1. Beth yw eu hoed? I ba gyfnod y mae'r hwiangerddi'n perthyn?

Mae yna un hen iawn, o'r chweched ganrif yn ôl pob golwg. Yn yr hengerdd 'Y Gododdin' a briodolir i Aneirin, bardd o'r Hen Ogledd, ceir darn sy'n amlwg heb fod yn perthyn i'r gerdd ac, yn wir, yn torri ar rediad y gerdd. Barn Syr Ifor Williams, yr awdurdod mawr ar y math yma o ddirgelwch, oedd mai hwiangerdd yw'r darn o'r hengerdd darn sylw. Un wennol ni wna wanwyn, ond mae'r ffaith bod un yn awgrymu bod y math hwn o lèn gwerin yn bod yn y canrifoedd cynnar hynny. Wedi'r cwbl roedd mamau'r cyfnod hwnnw angen moddion i ddifyrru'r plant fel mamau pob oes. A dyna awgrym Syr Thomas Parry pan ddaw at yr hwiangerddi yn ei "Hanes Llenyddiaeth Gymraeg"

"Colled nid bychan i'n llenyddiaeth yw na phoenodd neb am hir ganrifoedd i groniclo a chadw pethau fel hyn."

Felly gallwn fod yn weddol sicr bod un hwiangerdd hen iawn wedi ei chroniclo a'i chadw.

Cawn hefyd bod rhai lled ddiweddar, o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac o bosib o'r ugeinfed ganrif:

Bonheddwr mawr o'r Bala (Ceiriog)

Mae gen i ac mae gan lawer
Gloc ar y mur i ddweud yr amser,
Mae gan Moses Pant y Meusydd
Gloc ar y mur i ddweud y tywydd. (Ceiriog)

Gwen a Mair ac Elin
Yn bwyta lot o bwddin
A Benja bach yn mynd o'i go
A chrio'n anghyffredin. (J. Glyn Davies)

Llywelyn bach tyrd yma
 Ac ar fy nglin i dysga:
 Hen iaith dy fam yn gyntaf un,
 Ac wedyn iaith Victoria. (Anad.)

Ond yn sicr, mae crynswth ein hwiangerddi yn perthyn i gyfnod cyn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ceir nifer o bethau yn ategu hynny:

i) Does dim crefydd ynddyn' nhw. Arwyddocâd hynny yw eu bod yn perthyn i gyfnod cyn bod y Diwygiad Methodistiaidd wedi cael gafael ac wedi hydreiddio pob agwedd ar fywyd Cymru. Yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, pan aed ati i'w casglu, ceir crefydd yn gwgu a brochi arnyn' nhw, ac anodd iawn fyddai eu cyfansoddi yn awyrgylch y ganrif honno. Dyma'r anhawster a gafodd Ceiriog wrth gyhoeddi casgliad o'r hwiangerddi mesul tipyn yn yr 'Arweinydd' gyda chydysyniad Tegai y Golygydd. Bu dan gabl o gyfeiriad arweinwyr crefyddol y cyfnod. Dyma eiriau Ceiriog ei hun, y cyntaf ond odid i ymddiddori yn yr hwiangerddi, wrth eu cyflwyno yn yr 'Arweinydd':

“Ffôl, gwag a phlentynaidd yn ddiamau, ac efallai pechadurus yng ngolwg rhai, yw'r cerddi annwyl hyn, a anadlwyd ac a suwyd i'n clustiau pan oeddym fabanod ar lin ein mamau. Ond yr wyf fi o'r farn mai plant mawr byddar i felystra cerdd a deillion i dlynsni symlrwydd yw pob un na fedr deimlo swyn y math hwn o hen rigymau.”

Yn wir, daw dwy agwedd i'r amlwg tuag at yr hwiangerddi. Ar y naill law ceir rhai yn gweld gormod o foeswersi ynddyn' nhw. Mae moeswers mewn rhai ond nid digon i ddweud bod gormod:

Y sawl a dynno nyth y dryw
 Ni chaiff weled wyneb Duw

Y sawl a dynno nyth y frân
 A gaiff fynd i uffern dân

Bachgen da 'dy Dafydd
 Yn cadw'i sgidiau newydd
 Gwisgo'r hen rai tan yr ha'
 Bachgen da 'dy Dafydd

Bûm yn byw yn gynnil, gynnil,
 Aeth dwy ddafad imi'n ddwyfil.
 Bûm yn byw yn afrad, afrad,
 Aeth y ddwyfil yn ddwy ddafad.

Ar y llaw arall, ac yn yr eithaf arall, cawn rhai pobl yn gweld gormod o gelwydd a gormod o wagedd a ffwlbri ynddyn' nhw, a hyd oed ormod o drais a chreulondeb. Yn rhan gyntaf y 'Welsh Folk Songs for Schools' cawn sylw fel hyn:

“In both Britain and America, stern faced moralists have at different periods protested against them, because they are not true, and because they are full of death and violence.”

Gwelodd y “British Poetry and Drama Guild” yr hyn maen' nhw yn ei alw yn “unsavoury elements” mewn 100 allan o gasgliad o 200 ac ychwanegir:

“These above facts apply to nearly all ryme collections in other languages.”

Ychydig o'r elfennau annerbyniol yna sydd yn hwiangerddi Cymru fodd bynnag.

Gyrru, gyrru i ffair y Fenni
I brynu cledd i ladd y Bwci.

Y Cobler Coch o'r Rhuddlan
A aeth i foddi cath
Mewn cwd o liain newydd
Na fu erioed ei fath
Y cwd aeth gyda'r afon
Y gath a ddaeth i'r lan
Y Cobler Coch o'r Rhuddlan
Ond oedd o'n foddwr gwan.

Nedi ddrwg o dwll y mwg
Yn gwerthu'i fam am ddima' ddrwg

Tybaco bach, tybaco
Tybaco bach wy'n lecio
Pe cawn i geiniog am fy mam
Mi gwerthwn hi am dybaco.

Does felly ddim blas crefydd arnyn nhw ond bod ychydig o foeswersi. Mae hyn yn awgrymu'n gryf bod y mwyafrif mawr wedi eu cyfansoddi cyn dylanwad 'D'wygiad Mawr ' y ddeunawfed ganrif.

ii) Does dim sôn am y tylwyth teg ynddyn' nhw. Mae hynny'n awgrymu eu bod yn perthyn i'r cyfnod pan oedd ein cyndadau gymaint o ofn y “bobl bach”, fel na feiddient eu crybwyll yn eu llên gwerin, yn enwedig llên ar gyfer plant.

iii) Mae gwahanol fersiynau o lawer o'r hwiangerddi a theg wedyn yw credu eu bod yn perthyn i'r cyfnod pan oedd y math hwn o lenyddiaeth yn dibynnu ar gof gwlad neu'r traddodiad llafar i'w cadw. Drosodd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg y dechreuwyd eu cronico. Roedden nhw, felly, yn bod ac wedi bod am lawer o flynyddoedd cyn dechrau eu casglu. Dyma ychydig o enghreifftiau o'r gwahanol fersiynau o rai ohonyn nhw.

Mae yn y Bala flawd ar werth
A Mawddwy berth i lechu,
Ac yn Llyn Tegid ddŵr a gro
A gefail gof i bedoli.
Ac yng Nghastell Dinas Brân
Ddwy ffynon lân i molchi.

Ond ceir hefyd:

Mae yng Nghaerfyrddin flawd ar werth
A'r Rhondda berth i lechu

.....
Ac yng Nghastell Dinas Brân
Barcutan wedi boddi.

Y Cobler Coch o'r Rhuddlan
A aeth i foddi cath

Ond cawn wedyn

Y Cobler Coch o'r Hengoed

Siencyn Sion o'r Hengoed
A aeth i foddi cath

Colin Coch o Gaio
A aeth i foddi caeth

Llewelyn Fawr o Fawddwy
A aeth i foddi cath

Mae gen i iâr yn gori
Ar ben y Penmaenmawr

Ond ceir hefyd

Ar ben y Frenni Fawr

Ac

Ar ben Elidir Fawr

Mae gen i ebol melyn
Yn codi'n bedair oed
A phedair pedol arian
O dan ei bedwar troed
Mi redith ac mi brancith
O dan y Feinir Wen
Mi redith ugain milltir
Cyn tynnu ffrwyn o'i ben.

Ond cawn wedyn fersiwn gwahanol o'r pedair llinell olaf

Fe neidiais ar ei gefen
I fynd tua Pen y Lan
I garu'r ferch benfelen
Sy'n byw 'da'i thad a'i mam.

Hefyd:

I'r siop y caiff garlamu
I geisio llonaid sach
O de a siwgr candi
I John a Mari fach

iv) Gwledig ac amaethyddol yw eu naws a'u hawyrgylch. Adlewyrchu bywyd Cymru cyn ei bod yn Gymru weithfaol, ddiwydiannol y maen nhw. Ychydig iawn o gyfeiriad at y bywyd gweithfaol sydd ynddyn nhw. Mae eu diddordeb mewn tywydd a thymor, mewn ffair a gŵyl, mewn anifeiliaid ac offer amaethyddol.

Meddai Eluned Bebb yn ei chasgliad o hwiangerddi " Hwiangerddi'r Wlad" yn 1942:

"Nid darlun o'r dre na'r ardaloedd diwydiannol a geir ynddynt, ond darlun o Gymru fel yr oedd gan mlynedd a rhagor yn ôl – Cymru'r tyddynwr a'i fywyd syml, ei berchentyaeth, ei dda, ei ddodrefn, ei offer a chyda'i hiwmor gwledig iach, a'i synnwyr cyffredin cryf."

Mae'n amlwg fod ychydig, fodd bynnag, yn adleisio y Gymru weithfaol gynnar. Dyma ddwy enghraifft:

Bachgen bach o Ddowlais
Yn gweithio yng ngwaith y tân,
Bron a thorri 'i galon
Ar ôl y ferch fach lân.
Ei goesau fel y pibau
A'i freichiau fel y brwyn,
Ei ben e fel pyaten
A hanner llath o drwyn.

Mi welais bili pala
Yn llyncu Castell Crawsha
Cath a gwrcath gan Wil George
Yn gweithio Forge Cyfathra.

Eithriadau prin yw'r uchod. Nodwedd gyson yr hwiangerddi yw eu naws gwledig ac amaethyddol.

Mae gen i drol a cheffyl
A merlyn bychan twt,
A phump o wartheg tewion
Yn pori ar y clwt.

Mae gen i fochyn bychan
Mae gen i fochyn mawr
Mae gen i fochyn arall
Dyw'n fychan nac yn fawr.

I'r farchnad, i'r farchnad i brynu y moch
Y fath helynt dod adre, hysoch, hysoch,
Ffordd yma, ffordd acw, waeth tewi â sôn,
Moch ydi moch o Fynwy i Fôn.

Mae gen i gwpwrdd cornel
A'i lond o lestri te
A thresel yn y gegin
A phopeth yn ei le.

v) Mae'n bosibl y gellid ategu'r dyfaliad eu bod, y mwyafrif mawr ohonyn nhw, yn perthyn i'r cyfnod cyn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a hwyrach y

ddeunawfed ganrif, oddi wrth eu cynnwys, eu stori. Oni chlywir adlais o ryw gyfnod neu'i gilydd mewn rhai o'r rhigymau? Er enghraifft:

Mae gen i ddafad gorniog
Ac arni bwys o wân
Yn pori ar lan yr afon
Ymysg y cerrig mân
Fe ddaeth rhyw hwsmon heibio
A hysiodd arni gi
Welais i byth mo'n nafad
Ysgwn i a welsoch chi?

Tybed nad adleisio cyfnod dwyn y tiroedd comin oddi ar y werin a wneir yn y rhigwm hwn? Ac mae hynny'n ein gyrru ganrif a rhagor tu hwnt i'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Mae'r ceiliog coch yn canu
Mae'n bryd i minnau godi
Mae'r bechgyn drwg yn mynd tua'r glo
A'r fuwch a'r llo yn brefu.

Onid y dylifo o'r cefn gwlad i'r meysydd glo sydd yma?

2. Beth ydyn nhw?

Yr ateb cyntaf yw mai'n cynnyrch ni'n hunain yng Nghymru ydyn nhw, - brethyn cartre, hen yd y wlad. Ychydig iawn sydd wedi eu cyfieithu o unrhyw iaith arall. Cafwyd rhai, fodd bynnag, o'r Saesneg a thrwy'r Saesneg megis:

Moelyn wŷ melyn ar ben y wal fawr,
Moelyn wŷ melyn a syrthiodd i'r llawr,
Ni all gwŷr y brenin na neb arall chwaith
Roi Moelyn wŷ melyn yn ei ôl yr ail waith.

Hei didl, didl
Y gath gyda'r ffidl

Tair llygoden ddall
Gwelwch y tair yn mynd

Ond os mai ychydig a gyfieithwyd i'r Gymraeg, ychydig hefyd a gyfieithwyd o'r Gymraeg i'r Saesneg. Yr unig ymdrech sylweddol i wneud hynny, y gwn i amdani, yw "Old Welsh Knee Songs" Jennett Humphries a gyhoeddwyd yn 1894. Rhaid canmol yr ymdrech, er bod yn rhaid cyhoeddi uwchben llawer o'r cyfieithiadau "y gogoniant a ymadawodd". Aeth addurniadau megis yr odl fewnol a'r mydr ar goll yn y cyfieithiad. Er enghraifft:

The best of boys is Davvy
He keeps his grand new shoes
And doth the old pair use
The best of boys is Davvy.

Y gogoniant a ymadawodd. Dyma'r gwreiddiol

Bachgen da 'dy Dafydd
Yn cadw'i sgidia' newydd,
Gwisgo'r hen rai tan yr ha,
Bachgen da 'dy Dafydd.

Sylwer ar y mydr a'r odl fewnol.

I fynd yn ôl at yr ateb cyntaf i'r cwestiwn "Beth ydyn nhw?", sef ein cynnyrch ni'n hunain yng Nghymru, smaldod Cymreig, direidi Cymreig, cymeriadau Cymreig, cyfeiriadau Cymreig a geir ynddyn nhw.

Fe neidiodd llyffant ar un naid
O Lan San' Ffraid i Lundan,
A neidiodd yn ei ôl drachefn
Hyd ganllaw pont Llangollan
A lle disgynodd y drydeth waith
Yng nghanol caerâu Corwen.

Mi welais ddwy lygoden
Yn llusgo pont Llangollen
Rownd abowt o gylch y ddôl
Ac yn eu hól drachefen.

'Fuoch chi 'rioed yn morio
Wel do, mewn padell ffrio
Fe chwythodd y gwynt ni i'r Isle of Man
A dyna lle buom ni'n crio

Mae gen i iâr a cheiliog
Mi prynais nhw ar ddydd lau
Mae'r iar yn dodwy wŷ bob dydd
A'r ceiliog yn dodwy dau

Yr ail ateb i'r cwestiwn "Beth ydyn nhw?" yw mai hen benillion telyn, limrigiau, tribannau a darnau o bethau mwy megis caneuon gwerin a hen faledi etc. Y fam yn gafael yn y darnau mwyaf swynol, mwyaf dramatig a mwyaf cofiadwy, o bethau mwy ac yn eu hadrodd a'u hailadrodd, a pharhau i'w hadrodd neu eu canu i'w phlentyn wrth geisio'i ddifyru. Mae gormod o grefft ar lawer o'r rhigymau i dybio eu bod wedi eu cyfansoddi i blant ac ar gyfer plant. Ond mae'r defnydd ohonyn nhw a wnaed i ddifyrru plant wedi eu cadw yn fwy nag wedi eu creu. Wedi eu dwyn at y crud y maen nhw, ac nid wedi eu cyfansoddi wrth y crud.

Wrth gwrs mae'n deg tybio bod rhai wedi eu cyfansoddi ar gyfer plant, ac yn ôl yr angen i ddifyrru plant. Er enghraifft:

Gee ceffyl bach yn cario ni'n dau
Dros y mynydd i hela cnau,
Dŵr yn yr afon a'r cerrig yn slic,
Cwympo ni'n dau, wel dyna ichi dric.

Ifan bach a minna'
Yn mynd i Lunden glanma'
I roddi cyfraith ar y gath
Am yfed lla'th y bore.

Dau droed bach yn mynd i'r coed
 Esgid newydd am bob troed
 Dau droed bach yn dwad adra
 Wedi colli un o'r sgidia.

3. Pwy a'u cyfansoddodd?

Fel y gellid disgwyl, dienw yw'r mwyafrif mawr gan eu bod yn perthyn i gyfnod pan na ysgrifennid y math hwn o lenyddiaeth. Y bedwaredd ganrif ar bymtheg aeth ati i'w casglu. Ond mae rhai o'u hawduron yn wybyddus. Er enghraifft, ceir un wrth enw Dafydd Ionawr, bardd crefyddol, ysgrythyrol, awdur Cywydd y Drindod sy'n 1300 o linellau.

Mae gwraig yng Nglan y Morfa
 Yn berwi uwd y nos,
 A chadw morwyn lysti
 I gario dŵr o'r ffos.
 Ei droi ef a'i gyboldio
 A'i wneud yn uwd purdew
 Ac ambell benbwl ynddo
 A llawer pryd o flew.

Yna ceir darn o gerdd Jac Glangors, "Priodas Siencyn Morgan"

Roedd ci modryb Ann Ty'n Coed
 Yn gwaeddi'n anghyffredin
 Am iddo losgi i droed
 Mewn padell fawr o bwddin
 Roedd yno bwddin pys
 A hwnnw ar hanner berwi
 Y goges wedi torri'i bys
 A cholli'r cadach llestri

Cawn un wrth enw Dafydd Jones o Gaeo, awdur "Wele cawsom y Meseia", "Pererin wy'n y byd" ac "O, Arglwydd galw eto".

Mae'r ceffyl glas yn egwan
 A'r chwys oddi arno'n tropian
 Mae'r ffordd ymhell a'r llwyth yn drwm
 Oddi yma i Gwm Gogerddan.

Bardd gwlad graenus oedd Owen Gruffydd, Bwlchgwernog. Ceir un wrth ei enw yntau:

Ceiliog bach yr Wyddfa
 Yn canu ar y bryn
 Hwiaid Aberglaslyn
 Yn nofio ar y llyn.
 Gwyddau Hafod Gregog
 Yn gwaeddi wich di wach
 A milgwn Jones Ynysfor
 Ar ôl y llwynog bach.

Mewn cyfnod diweddarach, fel y sylwyd yn barod, ceir rhigymanau o'r math hwn gan Ceiriog, J Glyn Davies, a mamau athrylithgar.

4. Pa werth sydd iddyn nhw?

Maen nhw'n ddeunydd difyrrwch di-ail i blant bach ac i blant mawr. Maen nhw'n gyforiog o lol a direidi iach, yn ddramâu bach, yn gomedïau, yn gartwnau geiriol, yn llawn troeon trwstan. Ffwlbri di-synnwyr yw llawer ohonyn nhw, ond onid dyna eu swyn a'u cyfaredd?

Mi welais ddwy lygoden
Yn llusgo pedair wagen
O Gaerloyw i Gaerdydd
A John y crydd yn gaptan.

Beti Bwt a aeth i olchi
Eisiau dillad glân oedd arni,
Tra bu Bet yn mofyn sebon
Aeth y dillad gyda'r afon.

Hen wraig yn y gornel
A phib yn'i phen
Yn smocio llaeth enwyn
Dyna'r stori ar ben

Hen wraig fach ar ben y garreg olchi
Daflodd ei chlocsen i ganol y cenlli
Hen wraig arall yn clapio'i dwylo
Wrth ei bodd yn ei gweld yn nofio

Mae nhw'n dywedwyd yn Llanrhaead
Mai rhyw deiliwr wnaeth y llaead
A'r rheswm am fod golau trwyddo
Ei fod heb orffen cael ei bwytho

Mae gen i hen iâr dwrci
A mil o gywion dani
Pob un o'r rheini gymaint ag ych
Ond celwydd gwych yw hynny

Oes iddyn nhw werth llenyddol?

Maen nhw'n perthyn i'r llenyddiaeth a alwn yn "llên gwerin". Bodlonaf ar farn rai a ystyrir yn awdurdodau llenyddol.

Robert Graves – Athro barddoniaeth yn Rhydychen

Nursery Rhymes ar nearer to poetry than much of the "Oxford Book of English Verse".

Walter De La Mare

They have their own little beauty if looked at closely.

Cammaerts

The nursery rhyme is essentially poetical because it is essentially musical.

G K Chesterton

“Over the hills and far away” is the most beautiful line in English poetry.

O M Edwards

Mae tinc a ffurf farddonol i'r rhan fwyaf o'r Hwiangerddi.

Thomas Parry

Dyma gipolwg ar farddoniaeth fwy gwerinol y buasai'n ennill anfesuradwy i'n llenyddiaeth petai gennym fwy ohoni. Colled nid bychan i'n llenyddiaeth yw na phoenodd neb am hir ganrifoedd i groniclo a chadw pethau fel hyn.

Oes iddyn nhw werth addysgol?

Y mae eu cyflwyno i blant yn ffordd dda o roi geirfa iddyn nhw heb eu bod yn ymwybodol o hynny, maen nhw mor llawn o eiriau ac o enwau pethau sy'n perthyn i fyd plentyn, ac mor hawdd i'w dysgu a'u cofio, ac yn ffordd dda o gael plant i ynganu geiriau'n iawn.

Mae gen i drol a cheffyl
A merlyn newydd sbon.
A phump o wartheg blithion
Yn pori ar y fron.

Mae gen i ddafad gorniog
Ac arni bwys o wllân
Yn pori ar lan yr afon
Ymysg y cerrig mân,
Fe ddaeth rhyw hwsmon heibio
A hysiodd arni gi
Welais byth mo'n nafad
Ysgwn i a welsoch chi?

Mae gen i ebol melyn
Yn codi'n bedair oed
A phedair pedol arian
O dan ei bedwar troed
Mi neidith ac mi brancith
O dan y feinir wen
Mi redith ugain milltir
Heb dynnu ffrwyn o'i ben.

Mae gen i iâr
Mae gen i geiliog
Mae gen i gywen felen gopog
Mae gen i fuwch yn rhoi imi lefrith
Mae geni i gymen fawr o wenith.

Dyma a ddywed O M Edwards:

“Ni fyddaf yn credu dim a ddywedir am addysg babanod os na fedrir ei brofi o'r hwiangerddi”.

5. Ydi'r hwiangerddi yn rhy hen ffasiwn?

Dichon bod rhai o'r hwiangerddi yn swnio'n hen ffasiwn erbyn hyn. Tybed felly, mewn gwlad â chymaint o feirdd â Chymru, nad oes casgliad o rai mwy cyfoes eu cynnwys yn bosibl? Oni fyddai meithrinfeydd yn falch o'r fath ddarpariaeth pe gellid ei chael? Mentrais geisio dangos y posibiladau:

Mae gen i sgwter newydd
A beic mynydd newydd sbon
A ffôn symudol hwylus
I siarad efo Nel.

Mae gen i set deledu
Y fwyaf fu erioed
Caf sbecian ar raglenni
Ar gyfer rhai mewn oed.

Mae gen i arad chwechwys
A thractor newydd sbon
A threlar lfor Williams
All gario'r Wyddfa bron.

Mae gen i glamp o gombein
A belar wrth 'i gwt
Caf ladd yr ŷd a'i ddyrnu
A byrnu'r gwellt yn dwt.